

Teithiau Penllyn

Taith i Bob Gallu - Taith Tegid

Cymdeithas Twristiaeth y Bala a Phenllyn

Go Bala

All Ability Trail – Tegid Trail

Bala & Penllyn Tourism Association

Taith i Bob Gallu | All Ability Trail



Crynodeb

Llwybr gwastad ar darmac addas i gadeiriau olwyn, sgwteri mobility, cadeiriau plant, etc.. Golygfeydd gwych o'r llyn a'r bryniau o gwmpas Llyn Tegid. Mae mynedfeydd at lan y llyn mewn sawl lle. Mae'r ffordd fawr A494 yn brysur ac mae beicwyr yn defnyddio'r llwybr hefyd.

Mae Cymdeithas Dwristiaid y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth roddir yn y daflen hon ond gall rhai newidiadau ddigwydd. Dylech fod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun, cymerwch sylw o rybuddion, dilynwch y Cod Cefn Gwlad a gweler gwefan www.GoBala.org (Gwybodaeth/Diogelwch)

Gwybodaeth i Dwristiaid:	www.VisitBala.org neu www.ymweldageryri.info
Gwybodaeth am Deithiau:	www.GoBala.org

Cynlluniwch eich taith

Pellter	4½ km (2.8 m) (un ffordd)
Dringo	80 m (un ffordd)
Amser heb aros	1½ awr (un ffordd)
Map	OS OL23 or OL18
Y Llwybr	Llwybr tarmac yn dilyn ffordd brysur
Cychwyn	Canolfan Hamdden, Heol Pensarn, Bala, LL23 7SR; SH922355
Gorffen	Parc Carafanio a Gwersylla Glanllyn LL23 7SS; SH892324 Cynllunir i ymestyn hyd at Lanuwchllyn
Parcio Ceir	Canolfan Hamdden (Talu ac arddangos)
Toiledau	Canolfan Hamdden a Thref YBala
Bwyd	Canolfan Hamdden a Thref YBala
Cludiant Cyhoeddus	www.GoBala.org (Gwybodaeth/Cludiant Cyhoeddus)
Pwysig	Mae'r llwybr yn dilyn ffordd brysur A494 Mae hefyd yn llwybr beicio

www.GoBala.org





Y Daith

- 1 DECHRAU** Gadael y Ganolfan Hamdden a throi i'r chwith hyd y llwybr sy'n dilyn yr A494 I gyfeiriad Dolgellau.
- 2** Dilynwch y llwybr troed am 4½ km hyd at Safle Carafanio a Gwersylla Glanllyn. **GORFFEN**

Pan ddewch i ddiwedd y daith hon byddwch gerllaw Maes Carafannau a Gwersylla Glanllyn. Mae siop ar y safle ac mae toiledau ar gael trwy ganiatod a chyfraniad tuag at elusen.

Gallwch ddychwelyd ar hyd yr un llwybr. Gall beicwyr fynd ymlaen o amgylch y llyn (A494, B4403) neu ddychwelyd hyd ffordd gwledig tawelach a'r A494 trwy Parc a Llanycil er fod rhai rhiwiau serth. Gall cerddwyr ddefnyddio llwybrau troed (rhan o rwydwaith y Parc Cenedlaethol) ond mae'r rhan gyntaf ar ffordd cyhoeddus a dim llwybr troed - ewch ymlaen am 400m hyd yr A494 yna troi i'r dde (Parc) i'r ffordd wledig. Ar ol 700m mae llwybr troed ar y dde (Rhwydwaith Hamdden Gogledd Llyn Tegid).





Bwrddir ymestyn y llwybr i Llanuwchllyn

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 / © Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023387



A Llyn Tegid Llyn naturiol mwyaf Cymru. Mae oddeutu 4 milltir o hyd a 150 tr. O ddyfnder. Lleolir ar ffawt ddaearogol Bala- Talyllyn. Crewyd y pantle mae'n debygol gan erydiad rhewlifol adeg Oes yr Ia. Mae'r Gwyniad, pysgodyn unigryw tebyg o ran nodweddion i bennog a or-oesodd o Oes yr Ia i'w gael yn y llyn.

Dywed hen chwedl i'r llyn gael ei ffurfio fel cosb am gam-ydddygiad Tegid Foel – tywysog lleol. Yn ol yr hanes boddwyd ei balas a'i ddeiliaid un nos wedi gwledd feddw o ganlyniad i'w warchodlu anghofio gosod clawr ar ffynnon hud fyddai'n llifo drosodd wedi nos. Dim ond un achubwyd – hen delynor teithiol a arweiniwyd i ddiogelwch gan aderyn bach yn galw'n ddibaid "Daeth Dial! Daeth Dial!" Deffrodd ar lethr y bryn yn y bore l weld llyn anferth yn llenwi'r dyffryn a'i delyn ef ei hun yn arnofio ar ei wyneb. Lledaenwyd storïau eraill am anghenfil yn llechu yn nyfnderoedd y llyn. Yn 1995 bu llong danddw'r mini Siapaneaidd yn gwneud archwiliad daearyddol o wely'r llyn ond ni welwyd yr un anghenfil!

B Loch Café. Adeiladwy y caffi gan William Meredith, arloeswr ffotograffiaeth yn Y Bala.

C Llany Cil (Yr Eglwys yn y gilfach). Sefydlwyd gan Sant Beuno yn yr 8fed ganrif. Llecyn cysgodol, tawel a heddychlon ar lan y llyn. Bu'r safle'n gyrchfan addolwyr o'r pryd hwnnw nyd at ddiwedd 2003 pan gaewyd drysau'r hen eglwys oherwydd costau cynnal a chadw, rheolau a biwrocratiaeth yr oes hon. Yn ddiweddar prynwyd Eglwys Llany Cil gan Gymdeithas y Beibla

sy'n cynllunio ei hagar fel Canolfan Treftadaeth Ffydd. Daearydd gweddillion nifer o enwogion yn y fynwent gerllaw – yr enwocaf oedd y Parch. Thomas Charles, un o arweinyddion pennaf y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru. Yma hefyd y gorwedd Dafydd Cadwaladr, tad Betsi Cadwaladr fu'n nyrsio'r clwyfedigion yn Balaclava adeg Rhyfel y Crimea. (Gweler taflen "Taith Betsi Cadwaladr") Cofiw'n hefyd am Robert Roberts "Bob Tairfelin" y canwr baledi a chaneuon gwerin poblogaidd.

Cerddodd **Mary Jones** yn droednoeth o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala yn 1800 i brynu Beibl – taith gron dros 52 miles (Gweler taflen "Taith Mary Jones"). Doedd dim copi ar ol gan Thomas Charles a rhoddodd Feibl addawyd l gyfaill iddi. Defnyddiodd Thomas Charles y digwyddiad yn ei ddadl i sefydlu Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor.

D Gerllaw Eglwys Llany Cil mae nant – **Nant Gwenwyn Feirch**. Yn ol yr hanes bu digwyddiad yma yn dilyn Brwydr Naseby (1645). Gorchmynodd Oliver Cromwell ymlid Brenhinwyr amlwg. Roedd Rowland Fychan o Gaergai, Llanuwchllyn yn un ar y rhestr (Gweler cyfeiriad at Gaergai isod), Gorffwysodd milwyr Cromwell gerllaw Eglwys Llany Cil. Taflodd gwraig leol ganghennau coeden ywen i'r dwr l wenwyno'r ceffylau. Crewyd digon o oedi l anfon rhybudd l Rowland Fychan a chaniatau iddo ddianc.

E Bryn Tegid – Ty bonedd unwaith ond erbyn heddiw yn darparu gwasanaeth gwely a brecwast. Adeiladwyd yn 1849 l Major General Robert Owen Jones. Ymysg pethau eraill trefnodd ef y

gwaith o fapio Cymru i'r Ordnance Survey, a bu'n gyfarwyddwr masnach yr Army and Navy Stores yn Llundain. Roedd stad Bryn Tegid oddeutu 200 erw ac yn cynnwys dwy fferm yn ogystal a rhan o lan Llyn Tegid lle'r adeiladwyd glanfa o gerrig. Credir mai ef oedd y cyntaf l fod yn berchen ar gwch hwylio ar y llyn.

F Dilynwyd yr A494 am 1km o ddiwedd y daith hon a deuwch at **Wersyll yr Urdd, Glanllyn** a sefydlwyd yn 1950. Mae'r gwersyll yn cynnig cyrsiau a gweithgareddau awyr agored l ysgolion, colegau a chymdeithasau, gwersylloedd haf i blant a ieuencid ac arbenigedd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yma mae prif swyddfeydd Urdd Gobaith Cymru. Ymysg yr atdnydiadau mae Bowlïo Deg a Chwrs Rhaffau Uchel ond rhaid trefnu l logi ymlaenllaw. Yn wreiddiol perthynai'r plas l Syr Watkin Williams Wynn a stad enfawr Wynnstay. Defnyddid Glanllyn yn yr haf adeg saethu grugieir.

G Ewch ymlaen am gilomedr arall a dewch at safle hen **gaer Rufeinig Caergai**. Roedd y gaer ar y ffordd Rufeinig arweinïaï o Benyffordd gerllaw Caer tua'r Brithdir, Dolgellau. Mae rhai o olïon muriau allanol y gaer i'w gweld o hyn ac mae ffermdy Caergai yn sefyll yn y gornel ogledd-ddwyrainiol. Bu'n gartref uchelwyr lleol am gyfnod maith gan gynnwys Rowland Fychan. Adeg y Rhyfel Cartef llosgwyd Caergai i'r llawr gan filwyr Cromwell ac atafaelwyd ei dir. Daflïad carreg i'r dwyrain o Gaergai mae treflan Y Lon, sydd ar lwybr yr hen ffordd Rufeinig. Pan adeiladwyd y rhes dai newydd yn 1951 fel rhan o brosiect dathlu Gwyl Prydain darganfuwyd beddau Rhufeinig ar y safle.